



## Hutan y mynydd

Pen y Gogarth,  
Llandudno  
Awst 28 eleni

Aderyn ifanc, un cynnar iawn  
Llun: Alun Williams

Cofiaf innau, tua'r flwyddyn 1966 wirioni ar ôl dod o hyd i gorff hutan fynydd ar ochrau Moel Smytho, Rhosgadfan, ym mis Mai os cofiaf yn iawn. A chyn i neb ofyn, do, collais y llun ohono, a'r cofnod! Gol..

“Arferion a Chwaraeon ardal y Parc erstalwm” (Pigion o draethawd am rai arferion amaethyddol a arhosai efo yng nghof “Hen Ddwyllo”, cystadleuydd yn un o Eisteddfodau cylch y Parc, Y Bala. Fe'i hysgrifennwyd yng nghanol yr 1960au gan. Tybir mai O.T Jones, Llwynmafon (Tu Du gynt) oedd yr awdur.

### CAWS

Enllyn arall derbynol fyddai cosyn cartref a byddai amryw o'r ffermydd, yn gwneud tipyn o gaws pan fyddai digonedd o laeth. Ffordd arferol i'w wneud byddai defnyddio llaeth drwyddo, hynny yw, y llaeth heb ei hufennu a llaeth sgim. Llaeth wedi codi'r hufen oddiarno, yr un faint o bob un, a'i dwymo i wres gwaed 98F. Wedyn ychwanegu 'Rennet' iddo a'i adael i sefyll gwpl o ddyddiau hyd nes y byddai wedi ffurfio yn grawen yng ngwaelod y pot. Cael yr hyn a elwid yn 'llian caws' a'i daenu arno ac arllwys y gwlybion i lestr arall (dyma'r maidd, fyddai'n gwneud siot mor flasus yn ystod y cynhaeaf gwair, fel y llaeth enwyn o'r fuddai.) Mwyaf yn y byd a dynnid o'r gwlybion, byddai'r grawen, sef y gronynnau caws, yn ffurfio fel lwmp o does. Wedyn, byddai malwr a phigau arno, rhyw fath o beiriant oedd hwn i falu'r grawen cyn ei roi yn y cawswellt ac yna gosod gwasg denau o amgylch a llanw'r cawswellt a'r wasg yn llawn. Amcan y wasg oedd iddi suddo i mewn gyda'r caws o dan bwysau a phan gyrhaeddi'r pwysau a gwyneb y cawswellt byddai cymaint o wasgu ag a fyddai'n bosibl wedi cymryd lle. Dwy garreg las wedi eu gosod mewn ffrâm haearn fyddai yn gwasgu a'r garreg fyddai yn pwyso yn cael ei rheoli gan sgrif bwrpasol. Byddai tyllau mân yng ngwaelod y cawswellt ac hefyd yn y garreg er mwyn i'r sudd gael ei weithio allan. Gollwng ychydig bwysau yn ychwanegol bob dydd fyddai'r gamp fel y byddai'r cosyn yn sychu ac wedi bod yno am rai dyddiau felly byddai cosyn o ddeuddeg i bymtheg pwys yn barod i'w roi ar y silff at wasanaeth y teulu. Edrychid ymlaen at swper a thorri'r cosyn.

Gyda chaniatad a diolch i'r teulu ac i Carys Dafydd

### CYFEIRIADAU AT “CAWS” YN Y TYWYDDIADUR

Aberdaron 7 Mehefin 1884: sych Thomas Penybryn yn dyfod a [caws cnwc ?crwc]. Talu iddo am y cnwc... Oes yna rhywun yn gyfarwydd a'r term “caws cnwc” tybed?

Dyddiadur W Jones, Moelfre, Aberdaron

Llansilin sir Ddinbych 28 Ebrill 1942: Troi yn Hafod Caws a hau Gwenith. [Mae yna fferm yng Ngherrig y Drudion o'r enw Hafod y Maidd hefyd]

Dyddiadur Hugh Jones, Blaenycwm, Llansilin, Dinbych

Ty Uchaf, Padog 5 Gorffennaf 1946: 5.80 gneifiwr yma yn cneifiq, yma tan 6.00yh. Cael ffurflen i brynu bwyd ar rations:-Te libs 2oz, Siwgr 3 a hanner pwys, Margarine 3 a chwarter pwys, Preserves 31bs, Caws 1 a tri chwarter pwys.3 0 pwynt at y cynhaeaf gwair.

Dyddiadur DO Jones, Padog (gyda chaniatad papur bro Yr Odyn a'r teulu)

## Penbleth a chyr pen... a JACPOT!



Roedd y lindysen hon a gafodd Tom Jones yn cropan i fyny wal ei dy yn Golan, Garn Dolbenmaen yn ddiweddar yn benbleth i ni i gyd - nes i ni ei roi ar wefab wasanaeth i-spot y Brifysgol Agored (diolch i'w swyddog Cymreig Clare Flynn am ei chymorth). Syniad y gwasanaeth ar lein hwn yw, yn gyntaf, tynnu sylw arbenigwyr yn eu meysydd arbennig i'r creaduriaid rydym ni lleygwyr wedi digwydd ar eu traws ac sydd â

diddordeb gwybod i ba rywogaeth maent yn perthyn. Ail amcan y wefan yw casglu cofnodion na fyddai fyth yn dod i'r fei fel arall. Ac wele, lindysen Tom! I ba wyfyn neu loyn-byw mae hwn yn perthyn? Wel, yr un ohonynt! Sylwch ar y pen disgleiriog. Lindysen un o'r llibfryfed ydi hon (mae llibfryf yr eirin Mair - *gooseberry sawfly* - yn bla drwgenwog i arddwyr). Meddai un o arbenigwyr i-spot Chris Brooks, ar ôl iddo benderfynnu'n weddol hyderus mai llibfryf y poplys sydd yma, "It would

help confirm the ID if there were any trees of the Poplar family nearby". Ac meddai Tom wedyn, "Oes, mae un yma yn yr ardd ger y ffordd". Fel y dysgwyr i ni orffen pob prawf theorem fathemategol ers llawer dydd...

QED (Quod Erat Demonstrandum) .... 'Dyna Brawf Arni!'

Uchod mae map ei ddsbarthiad ym Mhrydain oddiar wefan [Nature Spot](#). Dyma gofnod cyntaf i Gymru - go dda Tom!



ON. Mae'r pryf hwn hefyd wedi cyrraedd Canada.

[Cliciwch am fwy](#)

Dywedodd Aisling Carrick (Canolfan Cofnodi Cofnod) nad oes llawer o gofnodion llibfryfed o gwbl yng nghronfa cofnod, a dim i'r rhywogaeth hon. Dywedodd Martin Harvey, un o swyddogion i-spot:

*Benson's 1958 Royal Entomological Society Handbook for sawflies describes T. grandis (which was then known as T. viminalis) as being found "Throughout Britain north to Inverness, locally abundant", so I'm sure there will be older Welsh records, but my impression is that it is a species that has been found less frequently in more recent years.*

## Y Pos



Cawsom yr ymateb orau eto i'r [pos mis Awst](#) - pedwar cynnig, a phob un yn gywir. Y [pres gloyw](#) (*Diachrysis chrysis* oedd yr ateb cywir) Bryan Jones o Langamarch gafodd yr £20 (£10 o rolofyr

o'r mis diwethaf). Gan eich bod yn cael blas ar y math hwn o bôs, beth am hwn uchod... am £10 (cynigion trwy "Cysylltwch" rhwng 1 -15 Medi).

Roedd John Harold, ymgeisydd arall (rhy hwyr i gael y wobrl!), yn fwy manwl ei gynnig (fel y buasech yn disgwyl oddiwrth ffashiwn arbenigwr). Tynnodd John ein sylw i'r ffaith bod y pres gloyw bellach wedi ymrannu i ddwy rywogaeth tebyg iawn i'w gilydd. Dywedodd, gan ddfynnu:

....there can be no doubt that *Diachrysis chrysis* (the Burnished Brass) and *Diachrysis stenochrysis* are two valid, separate species. The issue is whether or not one or both occur in Britain. In very over-simplistic terms, *chrysis* is a West Palaearctic moth that has expanded eastwards and *stenochrysis* is an East Palaearctic moth that has extended westwards. They have certainly now overlapped in Continental Europe; the issue is whether or not *stenochrysis* has yet reached Britain.

## Llety'r Filiast - ddoe a heddiw



*I thought this picture of Llety'r Filiast (Pen Y Gogarth) 1910 and a recent view of the same location may be of interest to Llên Natur readers*

*The vegetation has changed in the foreground and middle distance!*

trwy law Steve Roddick



Mae'n amlwg bod y beddrod hwn wedi cael ei dwtio cryn dipyn. Ond sylwch cymaint o goed sydd yn tyfu yn y cefndir ar y chwith heddiw o'i gymharu â 1910

Lluniau o gasgliad  
Thomas Shires

## Seamus Heaney

Er teyrnged i'r bardd Gwyddelig [Seamus Heaney](#) a fu farw ddiwedd Awst.

### Blackberry-Picking

*Late August, given heavy rain and sun  
For a full week, the blackberries would ripen.  
At first, just one, a glossy purple clot  
Among others, red, green, hard as a knot.....*

Seamus Heaney

Os am ddarllen gweddill y gerdd hon ewch i [Poem Hunter](#)

## Medelwr hirgoes Morocco



Medelwr ar y wal yng Ngwelfor, Waunfawr, ddiwedd Awst 2013 (sh526601)

Llun: Duncan Brown

Dyma ddywed yr arbenigwr o Fangor Richard Gallon amdano: *This is a harvestman called Dicranopalpus ramosus. It is a recent colonist, having spread through Europe from Morocco! It's very arboreal, and has that characteristic posture when it sits on walls.*

## Cofnodion Nodedig mis Awst

Ac ynghyd â'r medelwr uchod, a'r hutan fynydd (tud 1), dyma ddetholiad o gofnodion a dderbyniwyd yn ystod y mis Awst yn Oriel gwefan Llên Natur:

[gwiddonyn meillion](#), Penygroes Nigel Pitts  
[gem smotyn aur](#) Llanfaglan Ifor Williams  
[adain garpiog](#) Llambod SN570482 Ieuan Roberts  
[lindysen mantell dramor](#) (bridio) Waunfawr DB  
[ethiop](#) Pwll Penmaen, Dolgellau (Tom Jones)  
[gwas neidr mudol](#) Rhuddlan, Eifion Griffiths

## Braich y Pwll

Wes rhywun arall wedi clywed y term 'Braich y Pwll' am Benrhyn Lleyen? Mae'n eitha cyffredin yn Abergweun, ond beth am ardalodd erill?

Hedydd Huws (Facebook)

## Tywydd Awst Penisarwaun

Yr oedd tywydd mis Awst eleni yn arbennig o dda; doedd neb yn cwyno ond pawb yn canmol y dyddiau heulog braf. Tua diwedd y mis bu pobl (merched a phlant yn bennaf) yn casglu pwysy o fwyar duon. Heb os



dyma'r tymor gorau am fwyar duon ers amser go lew. Mae llawer o bobol wedi sylwi nad oes fawr ddim o loynnod lliwgar i'w gweld eleni ond bod y gwynion yn gyffredin iawn. Hefyd dydy'r fuwch goch gota ddim wedi ymweld â ni y tro yma. Cefais fy siomi yng Ngheunant o weld ffwlbart hardd yn gelain ar ymyl y ffordd; dyma'r cyntaf i mi weld ers amser go lew. Yr oedd pla o forgrug coch yn yr ardd gefn yn hael iawn eu pigiadau.

Cawsom 142mm o law yn disgyn ar 14 o ddyddiau gyda hanner y maint sef

71.5mm yn disgyn mewn un diwrnod [y 5ed o'r mis.] Yn Awst 2012

135mm oedd y glawiad ac yn disgyn ar 20 ddyddiau. Y tymheredd uchaf oedd 27c ar y cyntaf o Awst a'r isaf 8.3c ar noson y 25ain.

Les Larsen

Gallaf gadarnhau sylwadau Les yn yr ardal hon ar y cyfan, ond bum yn crwydro ardal Aberdaron yn ystod ail wythnos mis Medi, ac fe sylwon ni ar y buchod coch cwta rif y gwllth ar hyd ochrau'r lonydd - 10 mewn cymaint o lathenni cyfrod Gill fy ngwraig mewn un man. Gol.

## Llygod mawr mewn ffylid

Rwyf yn cael cip olwg ar bob rhifyn Fferm a Thyddyn sydd yn cyrraedd fy'n nhwylo. Rwyf wedi gweld son am lygod mawr mwy nag unwaith yn Fferm a Thyddyn, hoffem adrodd i chwi beth welais mis Ionawr eleni [2013]. Rwyf yn byw ym mhentref Bronant a phob bore rwyf yn teithio draw i Penuwch tua 5:30am i fwydo'r ddaau geffyl, a rhoddi tro i'r ci, cyn dechrau gwaith. Y bore yma ym mis Ionawr roeddwn rhwng Penuwch a Tyncelyn (crossroads) ger tyddyn o'r enw Bwlchgwynt, gwelais gannoedd neu filoedd o lygod mawr yn croesi'r ffordd. Sefais yn edrych arnynt am tua 2 funud. Ni welais lygoden wen yn arwain, ond roedd y llygod yn teithio yn groes i'r ffordd pam ddois arnynt - falle fod y lygoden wen wedi croesi cyn i fi ddod. Rhaid dweud roedd gweld cymaint o lygod mawr yn codi ychydig o fraw arnaf ac hefyd yr un pryd, un o'r pethau gorau rwyf wedi ei weld erioed..... hoffen ni wybod pam a pha mor aml mae'r llygod yn teithio mewn nifer mawr fel hun.

Eirwyn

Llythyr i gylchgrawn Fferm a Thyddyn yn ymateb i ysgrif ymchwil Dafydd Guto i lygod mawr

Wel? Pam a pha mor aml? Cwestiwn i chwi ddarlennwyr Bwletin Llên Natur (Gol.)



## Yr hoelen ar ei phen

Polyn totem, gwarchodfa natur Rhuddlan, gwaith Mike Owen. Mae'r manylder wedi ei greu gyda hoelion ac yn dangos cadwyn fwyd.

Llun a chapsiwn: Alun Williams

## Ffordd o ddweud....heb ddweud!

Llwydcoed Notes. BY MARCELLO. Jim declares that he heard the cuckoo late on Saturday night [18 Mawrth 1916]. On the previous Saturday night he had seen two milestones close together on Hirwain Road

Aberdare Leader 25 Mawrth 1916

## Catastrophe de la Divatte



Bel-Air, Sant-Julan-Kankell: Ar 2 Rhagfyr 1920 [sic. y dyddiad yn ôl testun Cylchgrawn Breizh-Llydaw, camgymeriad am 1910, sef y flwyddyn ar y cerdyn post a'r hanes ychwanegol isod yn Ffrangeg] cododd lefel y dŵr yn afon Liger (Loire) cymaint fel y torrodd drwy'r clawdd amddifynnol ym mhentref bach Bel-Air, Sant-Julan-Kankell (Vallee de Saint-Julien) gan beri llifogydd mor bell â chorsydd Goulen yn nyffryn Naoned. Er na fu i neb golli ei fywyd, achoswyd cryn ddinistr, a llanastr mawr. I gofio'r drychineb yn 2010 codwyd plac ym mhentref Bel-Air.

Llun a hanes: Cylchgrawn Breizh Llydaw Rhifyn 54



A dyma gadarnhau'r dyddiad: C'est d'ailleurs la raison pour laquelle les responsables municipaux se sont empressés de demander, dès le dimanche 4 décembre (deux jours après la catastrophe)

Achosodd y llifogydd i bobl orfod gadael eu tai ar fyr rybydd (llun [Wikimedia Commons](#))

## Cymylau digri

Roedd na res o gymylau digri yn symud o'r gogledd i'r de [29 Medi 2013]. Gweler y llun lloeren yn y gornel. Sylwais



arnynt ger Caernarfon gyntaf, ac erbyn cyrraedd Cricieth roeddwn yn barod i gael llun wrth iddynt symud i'r de.

Llun a sylw: Gwyn Williams

Meddai Huw Holland Jones: *I think the unusual looking clouds are Altocumulus with Virga ("Fallstreaks"). Virga is precipitation falling from the base of a cloud that evaporates before it reaches the ground. The magnified photo shows the tell-tale streaks of precipitation (which could be either rain, snow or ice, falling from the cloud bases. A closer study of the clouds points to them being Altocumulus, with the "bread-roll" appearance so typical of Ac cloud. Virga will give that dark, almost dense, look below the clouds, also the wispy look. I also notice that the tops of the clouds have a wispy look (along with the "bread-roll" appearance) which means the tops of the clouds are glaciating (seeding, producing ice crystals), which ultimately results in precipitation.*

## Styrsiwn prin wedi ei ddal ym Mhenfro



Dyma'r pennawd ar wefan y BBC ar yr 8 Medi eleni. Unwaith pob deng mlynedd yn ôl y son. Ond pa mor brin ydi'r styrsiwn yng Nghymru go iawn? Ydi o'n brinach heddiw nag ers stalwm? Mwy yn y rhifyn nesaf. Llun: IFM

## Cerrig mangel



Carreg Cannon, chwarel Rhiwbach, Cwm Penmachno, taith Cymdeithas Edward Llwyd, 31 Awst **Llun: Alun Williams**

Meddai Alun: "Dyma wybodaeth a gefais ar y we:

*Rock cannons* are, basically, a large firework, used to provide large explosions and pyrotechnics for special occasions such as the visit of posh folk to the quarry, or notable local events. The holes were hand-drilled into the rock, filled with black powder and then packed with crushed rock. Each hole was linked by a shallow groove, often curved to lengthen the interval between bangs. Black powder was then laid in the groove and covered with powdered stone to keep it in place. The holes are typically an inch in diameter and five inches deep. Modern experiments have shown that a small amount of black powder in the hole with a powder-filled goose feather quill as a fuse, and the whole held in place by powdered slate, can produce spectacular sounds and visual effects.

Unrhyw wybodaeth pellach rhywun?

Dyma ambell gofnod arall o "gerrig mangel" o'r Tywyddiadur:

*Bethesda, Carnarvonshire 18 Tachwedd 1899: Being the wedding day of Miss Gwynedd Douglas Pennant to Mr Quilter much display of flags etc was seen. Also Cannons and bonfires. Self went up to the quarry with John Lewis Caerberllan. Many people about. Very fine day.*

**Dyddiadur Richard Llywelyn Headley:**

Mae un o'r rhain i'w weld ar greigiau ar Ion Clegir rhwng Cwm y glo a Llanberis a hefyd wrth lan yr afon ger Pont y Pair ym Metws y Coed. Clywais stori fod rhai wedi eu gwneud ar gyfer ymweliad y Frenhines Victoria a Blaenau Ffestiniog - ond mi ddychrynodd hi yn ofnadwy gan feddwl fod rhywun wedi saethu ati hi! Mae yna lyfryn wedi ei gynhyrchu "Rock cannons of Snowdonia" yn dangos eu lleoliad.

**Olwen Evans**

## Trenewydd, Penfro



Dyma ymateb gan ddarllenwraig o Ganada:

*I have just been looking at the latest bulletin of Liên Natur and found the article by Chris Simkins about [Trenewydd](#) in Pembrokeshire. That sparked my interest, because when Robert and I came over in 1987 or 88, Trenewydd was for sale and we almost bought it!!! I remember they had a 15th century (or older) refectory table there, and one of the plants in the walled garden had been grown from a cutting brought back from Palestine. It was just my sort of place. However, we were both still working at that time, and it wasn't to be. It was a time before house prices went sky high too, so we could have afforded it.*

**Liz Spence**

Gobeithio y cawn ni fwy am y goeden o Balesteina maes o law

## Taith y Cnicht 20 Rhagfyr 2009



Digwydd mynd allan ganol prawn wnes i a mi ddaeth y sgrymptiau ma o'r de orllewin - cawod ar ôl cawod o genllysg ac eira'n haul a'r cymylau yn rhyfeddol. Mi oedd [Rob Piercy](#) wedi gwirioni cymaint efo'r lluniau mi wnaeth o beintio un ohonynt - ond alla'i ddim fforddio i'w brynu chwaith!



**Haf Meredydd**

Cofnodion eraill yr un diwrnod (20 Rhag 2009):

Gwelfor, Waunfawr: Sprinciad o eira dros nos (DB) .

Gallt-yr-Huan, Llangamarch: Eira trwm gyda'r bore dros 6 modfedd, a bu yma hyd y flwyddyn newydd (Bryan Jones)

Bodorgan, Môn: Wedi bwrw eira neithiwr ac yn oer iawn heddiw. (Gareth Rowlands)